CYNGOR CYMUNED BODORGAN

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cymunedol Bodorgan – 13 Tachwedd 2018

1 Presennol:

Cynghorwyr Mr Dafydd Jones (Cadeirydd), Mr Alwyn Rowlands, Mr Selwyn Williams Mr Gareth Evans, Mr Myfyr Davies, Mr Andrew Hughes. Cynghorydd Sirol Mr Peter Rodgers a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

2 Ymddiheuriadau:

Cynghorwyr Mr Tim Owen & Mr Gwilym Looms Cynghorydd Sirol Mr Bryan Owen.

3 Croesawyd pob aelod i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

4 Datgan Diddordeb.

4.1 Mr Dafydd Jones fel Ymddiriedolwr y Ganolfan er nad oedd y diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu ac felly cymerodd ran yn yr eitem.

4.2 Mr Andrew Hughes pan drafodir eitem Mynwent Capel Bethel er nad oedd ganddo diddordeb personol sy'n rhagfarnu ac felly cymerodd ran yn yr eitem.

5 Mynwent Capel Bethel

5.1 Cytunwyd yn unfrydol gan nid yw'r eiddo yn perthyn i'r Cyngor Cymuned nad oedd yno cyfrifoldeb statudol. Felly ni ddylai gario ymlaen gyda'r trefniant presennol ac y bydd rhaid i'r Capel wneud trefniadau o dorri gwair eu hunan.

5.2 Cytunwyd y bydd y Cyngor am gario ymlaen gyda cyfraniad yn flynyddol ac y bydd y Pwyllgor Cyllid yn gwneud yr argymelliad yma yn y Pwyllgor nesaf diwedd y flwyddyn.

.....

6 Derbyn & Cywiro Cofnodion Pwyllgor Llawn – 17/7/2018.

6.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd y cofnodion fel rhai cywir (**AR/SW**).

7 Derbyn & Cywiro Cofnodion Pwyllgor Llawn – 18/9/2018.

7.1 Penderfynwyd aelodau i ddileu ' y trafferthion gyda y ddau aelod a'r' o gofnod 4.4.

7.2 Yn dilyn y cywirdeb yma, derbynwiyd ac fe arwyddwyd y cofnodion fel rhai cywir (**SW/AH**).

8 Materion yn codi o cofnodion Pwyllgor Cyllid – 13/8/2018.

8.1 Cofnod 3.2 –dylai fod wedi nodi pwer statudol S214 ac nid S137 pan ddaw amser penderfynnu cyfraniad y mynwentydd.

8.2 Oherwydd ansicrwydd cyfanswm cyllid ar ol – penderfynwyd gostwng cyfraniad y Ganolfan o £12,000 I £10,000 pan ddaw y cyfle i agor cyfrif cadw.

8.3 Penderfynwyd y dylai aelodau Pwyllgor Cyllid ail edrych ar termau gostwng oriau y Clerc o 7 awr i 6 awr yr wythnos o'r 1af Ebrill 2019 ymlaen yn eu cyfarfod nesaf.

9 Materion yn codi o cofnodion Pwyllgor Llawn – 17/7/2018.

9.1 **Carafan, Malltraeth** – Cynghorwr Sirol Peter Rogers i ddod a sylw pryderon diweddaraf y Cyngor I sylw y Cyngor Sir.

9.2 **Safle Carreg Ceiliog Bach** – y Clerc i anfon llythyr i'r Adran Briffyrdd yn gofyn iddynt trefnu ymweliad a'r safle yn dilyn pryderon diogelwch yr aelodau.

9.3 **Hysbysfyrddau Newydd** – angen trefnu gosod y ddau hysbysfwrdd.

9.4 **Lon Gefn Groeslon Hermon > Aberffraw** – adroddiad fod y sefyllfa wedi gwella.

9.5 **Safle Maes Glas Bethel** – dim newid ac fe ddangoswyd siom enfawr fod y sefyllfa wedi llusgo ers 21 mlynedd bellach.

9.6 **Archwiliad y Maes Chwarae** – wedi ei wneud.

10 Materion yn codi o cofnodion Pwyllgor Llawn – 18/9/2018.

10.1 Nid oedd unrhyw mater yn codi.

11. Sedd Gwag.

11.1 Er fod hanner dwsin wedi dangos diddordeb – nid oedd cais swyddogol wedi ei dderbyn

12 Materion Cyllid.

12.1 Cytunwyd gyda rhestr o daliadau a derbyniadau y Cyngor rhwng Mis Gorffennaf a Mis Hydref 2018 yn unfrydol ac fe arwyddodd y Cadeirydd y ddogfen yn ogystal a cysoni mantolen y banc fel cadarnhad.

12.2 Dangoswyd siom am nad oedd adroddiad Archwiliad Allanol BDO wedi ei dderbyn hyd at hyn.

13 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

13.1 Cais Ail Adeiladu Llinell 11kV uwchben y ddaear rhwng Bryn Du, Malltraeth ac Aberffraw - Rhif Cais 10EL1531B/E – DIM SYLWADAU.

13.2 Cais Llawn Addasu & Ehangu yn Carreg Ceiliog Mawr, Bethel – Rhif Cais 15C154A – DIM SYLWADAU.

.....

14 PENDERFYNIADAU ADRAN CYNLLUNIO.

14.1 Codi Sied Amaethyddol – Bodragolwyn, Bodorgan (15C108C) – CANIATAD.

14.2 Cais Caniatad Blaenorol Codi Sied Amaethyddol yn Fferm Pen y Bont, Malltraeth (15C30J) – ANGEN CANIATAD BLAENOROL.

14.3 Cais Llawn Newid Defnydd Modurdy Presennol i Anecs Huangynaliadwy yn Llwyn Derwen, Bodorgan (15C46E) – CANIATAD.

14.4 Cais Llawn Addasu & Ehangu yn Trefle, Bodorgan (15C164D) – CANIATAD.

15 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL

- **Llecynnau Agored Mewn Datblygiadau Tai Newydd.**
- **Tai Marchnad Lleol**

Y Clerc i ddarparu ac anfon ymateb i'r Ymgynghoriad yma ar rhan y Cyngor.

16 ADRODDIAD CYNGHORWR SIROL PETER ROGERS.

16.1 Adroddiad Gosod Treth y Cyngor Sir ac roedd yn poeni am dyfodol sawl asedau yn eiddo'r Cyngor gan cynnwys Ysgolion Lleol.

16.2 Adroddiad Agoriad Hafan Cefni.

.....

17 ADRODDIAD YSGOL BODORGAN

17.1 Cafwyd adroddiad oddiwrth Cynghorwr Andrew Hughes ynghylch a integreddio disgyblion yn dilyn cau'r ysgol ym Mhodorgan a materion cludo'r disgyblion.

17.2 Roedd y Cynghorwr Alwyn Rowlands wedi trefnu Noson Calan Caeaf yn y Ganolfan

17.3 Adroddiad y bydd gan y Cyngor Sir cyfrifoldeb cynnal a chadw'r adeilad hyd at 2019.

17.4 Y bydd y Corff Llywodraethwyr yn bodoli tan 2019.

18 ADRODDIAD CANOLFAN BODORGAN

18.1 Adroddiad llawn gan y Cadeirydd fod ein Cyfreithwyr wedi anfon llythyr i'r Cyngor Sir ers Mis Medi ond heb dderbyn ymateb ganddynt.

18.2 Roedd hefyd yn disgwyl am Arolwg Strwythurol gan Cwmni Cadarn Consulting.

19 GOHEBIAETH

19.1 Panel Adolygu Annibynnol Cynghorau Cymuned & Thref yng Nghymru (Adroddiad Terfynnol) – wedi derbyn y pecyn er gwybodaeth yn unig.

19.2 Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – fe fydd rhaid i pob aelod anfon llythyr i'r Clerc os ydynt am hawlio costau treuliau neu peidio.

19.3 Cais am Diffibriliwr Ychwanegol – cytunwyd y Cyngor yn unfrydol o prynu UN ychwanegol petai Grwp Trefdraeth yn fodlon cyfrannu yn llawn at y gost. **(AR/AH).**

20 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 22/1/2019.

Clowyd y cyfarfod am 8:50yh.

Arwyddo.....**Cadeirydd**.22/1/2019...**Dyddiad.**

CYNGOR CYMUNED BODORGAN COMMUNITY COUNCIL.

Rhestr Taliadau & Derbyniadau y Cyngor.

TALIADAU / PAYMENTS.

Dyddiad	Rhif Siec	Taler	Disgrifiad	Swm
17/11/2018	231	Bodorgan Properties	Rhent Chwe Mis Hyd at 12/11/18.	£1,612.75
17/11/2018	232	Môn Grass Cutting	Cytundeb Torri Gwair	£ 865.00
17/11/2018	233	Dŵr Cymru	Mynwent Trefdraeth	£ 22.34

DERBYNIADAU/ RECEIPTS:

13/11/2018	Annwen Owen	Plot 7	£179.96
13/11/2018	C Cresswell	Plot 4	£196.73
13/11/2018	L R Thomas	Plot 9	£249.49
13/11/2018	AM & CP Hughes	Plot 2	£104.70
13/11/2018	J & M Cresswell	Plot 6	£179.96
13/11/2018	GW & EA Hughes	Plot 1	£124.33
16/11/2018	Llyr Davies	Plot 5	£188.55
21/11/2018	Maldwyn R Evans	Plot 3	£241.31
21/12/2018	Tim Owen	Plot 8	£188.55
	Cyngor Sir Ynys Mon – Priseb 3 – 2018-2019		£2,866.67

CYSONI

Gweddill	31 Hydref 2018	
Derbyniadau		£15,409.46
		£ 4,520.25 +
Llai Gwariant		£19,929.71
		£ 2,500.09 -
CYFANSWM	31 Rhagfyr 2018	£17,429.62

BANC

Cyfrif Cyffredol – 31 Rhagfyr 2018 £17,429.62

Arwyddo.....Cadeirydd.....22/1/2019.....Dyddiad.